Mi glywais lais yr Iesu'n dweud

Caneuon Ffydd: Rhif 774

Mi glywais lais yr Iesu'n dweud,
"Tyrd ataf fi yn awr,
flinderog un, cei ar fy mron
roi pwys dy ben i lawr."
Mi ddeuthum at yr Iesu cu
yn llwythog, dan fy nghlwyf;
gorffwysfa gefais ynddo ef
a dedwydd, dedwydd wyf.

Mi glywais lais yr Iesu'n dweud,
"Mae gennyf fi yn rhad
y dyfroedd byw; sychedig un,
o'u profi cei iachâd."
At Iesu deuthum, profi wnes
o'r ffrydiau sy'n bywhau;
fy syched ddarfu: ynddo ef
'rwy'n byw dan lawenhau.

Mi glywais lais yr Iesu'n dweud,
"Goleuni'r byd wyf fi,
tro arnaf d'olwg, tyr y wawr
a dydd a fydd i ti."
At Iesu deuthum, ac efe
fy haul a'm seren yw;
yng ngolau'r bywyd rhodio wnaf
nes dod i gartre 'Nuw.

HORATIUS BONAR, 1808–89
cyf. Y CANIEDYDD CYNULLEIDFAOL NEWYDD, 1921

MYFYRDOD

Diolchwn, er ised cyflwr yr Eglwys yn ein plith yn ystod y dyddiau hyn, fod modd clywed llais Iesu yn dal i geisio siarad â ni, siarad geiriau o gysur ac anogaeth. Nid yw ei lais yn llai eglur nac yn ddistawach heddiw nag a fu o'r blaen, ond fe ymddengys ein bod yn fwy cyndyn i wrando arno, a bod y lleisiau eraill sydd o'n cwmpas ym mhob man yn boddi ei sŵn.

Cyfieithiad sydd yma o waith Horatius Bonar, a

gyfansoddodd yr emyn gwreiddiol, 'I heard the voice of Jesus say', pan oedd yn weinidog yn Kelso yn yr Alban. Dywedir iddo ei seilio ar Ioan 1:16: 'O'i gyflawnder ef yr ydym ni oll wedi derbyn gras ar ben gras.'

Byddai'n hawdd i ni basio heibio i'r adnod hon o brolog Ioan i'w efengyl, gan ddiolch yn unig am fod gras Duw yn cael ei rannu'n hael i bawb, ond mae Ioan yn dysgu bod y gras hwnnw yn tarddu 'o'i gyflawnder'. Dyma Dduw yn ein cyfarfod yn union fan ein hangen ym mherson Iesu Grist, gyda holl adnoddau'r Duwdod y tu cefn iddo.

Canolbwyntia'r tri phennill ar wahanol addewidion ein Harglwydd, ac ar y cyflawnder sydd yng Nghrist i gyfarfod â'n hanghenion dyfnaf, bob un. Addawa'n gyntaf ein cysuro a'n cynnal pan ddown, yn llwythog a blinedig, â'n beichiau ato: '"Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi!"' (Mth. 11:28). Mae'n addo diwallu pob syched sydd ynom gyda'i ddŵr bywiol gan ein bywhau: '"Bydd y dŵr a roddaf iddo yn troi yn ffynnon o ddŵr o'i fewn, yn ffrydio i fywyd tragwyddol"' (Ioan 4:14). Dyma'r cysur a'r gobaith mae'n eu cynnig i bawb sy'n ei ganlyn, sef y bydd yn symud eu tywyllwch ymaith: '"Myfi yw goleuni'r byd . . . ni bydd neb sy'n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni'r bywyd"' (Ioan 8:12).

O glywed a derbyn yr addewidion, rhaid inni fod yn sicr bod Duw am eu cyflawni; ei fod am ein cysuro a'n cynnal, ein bywhau a'n goleuo â gobaith. Atgoffwn ein hunain o'i Air inni. Peidiwn ag edrych yn unlle arall am yr hyn mae Duw wedi ei addo inni. Disgwyliwn iddo eu cyflawni yn ein bywydau, ac i'r addewidion hyn, ymysg eraill, godi ein disgwyliadau o Dduw. Os yw Iesu'n barod ei air ar ein cyfer, daliwn ar ei air a dywedwn fel Samuel gynt: 'Llefara, Arglwydd, canys y mae dy was yn gwrando' (1 Sam. 3:9).

GWEDDI

Diolchaf iti, O Dduw, dy fod, nid yn unig yn rhoi addewidion, ond yn barod i'w cyflawni bob tro trwy ras ein Harglwydd Iesu Grist sydd i'w gael yn ei gyflawnder ar gyfer anghenion pob un ohonom. Pâr inni bwyso ar dy eiriau. Er gogoniant i enw Iesu. Amen.